Eich cyf/Your ref Ein cyf/Our ref

Philip Blaker

Prif Weithredwr

Adeilad Q2,

Lôn Pencarn

Parc Imperial,

Coedcernyw

Casnewydd

NP10 8AR

3 Mehefin 2020

Annwyl Philip,

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â'r hysbysiad diweddar i'ch tîm nawdd o benderfyniad arfaethedig yr oeddech yn paratoi i'w wneud, o dan y gofynion cyn-hysbysu a oedd wedi'u cynnwys fel rhan o adendwm i'ch cytundeb fframwaith. Mae'r penderfyniad arfaethedig hwn yn ymwneud â'r broses apelio yr ydych yn bwriadu ei sefydlu ar gyfer cyfrifo graddau yn dilyn canslo arholiadau'r haf eleni oherwydd Covid-19. Rydych wedi dilyn y broses cyn-hysbysu gan eich bod yn credu bod y penderfyniad arfaethedig hwn yn debygol o fod yn newydd ac yn ddadleuol

Rwy'n ddiolchgar i chi am dynnu sylw Llywodraeth Cymru at y penderfyniad arfaethedig hwn a rhoi cyfle i ni ei ystyried cyn i'ch Bwrdd wneud penderfyniad terfynol ar y broses.

O ystyried yr amgylchiadau cwbl annisgwyl oherwydd y pandemig eleni, a oedd yn golygu bod angen canslo arholiadau'r haf a sefydlu prosesau i alluogi cyfrifo graddau, mae'n hanfodol bod proses apelio deg a thryloyw yn cael ei sefydlu i gefnogi dysgwyr na fyddant yn cael cyfle i sefyll eu harholiadau yr haf hwn.

Tynnwyd sylw'n glir at bwysigrwydd hyn yn y Cyfarwyddyd a wnaeth y Gweinidog Addysg ar 6 Ebrill. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn nodi polisi Gweinidogion Cymru o ran canslo'r arholiadau, gan gydnabod mai mater i chi benderfynu arno fel y rheoleiddiwr annibynnol yw'r manylion gweithredol ynglŷn â sut i gyflawni hyn.

Mae Tîm Nawdd Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r Uned Cyrff Cyhoeddus a'r Uned Llywodraethu Corfforaethol, wedi ystyried y penderfyniad arfaethedig hwn, eich rhesymeg a'r camau yr ydych wedi'u cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i geisio sicrhau proses deg a thryloyw. Mae Tracy Burke, y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, a'r Gweinidog Addysg wedi nodi'r penderfyniad arfaethedig hwn.

Felly, hoffwn gadarnhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i'r penderfyniad arfaethedig hwn. Rwy'n cydnabod bod yr amserlenni yr ydym i gyd yn gorfod gweithio oddi mewn iddynt yn heriol iawn ac felly bu'n rhaid i chi roi gwybod i ni am y penderfyniad arfaethedig hwn yn gynnar yn y broses o wneud penderfyniadau, gan fod y cytundeb hwn yn amodol ar y canlynol:

- Bod dadansoddiad llawn a manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal a'i gyhoeddi;
- Mae cyhoeddi'r penderfyniad yn rhoi cyfiawnhad clir dros y camau gweithredu rhesymol hyn ac yn tynnu sylw at unrhyw gamau lliniaru sy'n ychwanegol at y rhai a amlinellwyd eisoes yn yr ymgynghoriad, a fydd yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu hawliau dysgwyr, a
- Bod y broses apelio a sefydlir yn cael ei monitro a bod y gwaith o adrodd arni'n dryloyw.

Rwy'n sylwi eich bod wedi cynnal cyfarfod brys o'r Bwrdd i ystyried a chadarnhau'r penderfyniad ynglŷn â'r broses apelio ac y byddwch hefyd yn cyfarfod â'r Gweinidog, cyn cyhoeddi'r penderfyniad hwn.

Hoffwn ddiolch i chi a'ch staff am eich holl waith caled yn ystod y cyfnod hwn, sydd wedi bod yn heriol tu hwnt, ac am yr ymdrechion a wnaethoch i sicrhau bod fy nhîm i yn rhan llawn o'r drafodaeth.

Yn gywir

Steve Davies Cyfarwyddwr Addysg / Director of Education